Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau

2024 Adroddiad Blynyddol

## Datganiad y Prif Weithredwr, Tom Sawyer

Roedd cefnlen fyd-eang newidiol i ddigwyddiadau 2024 pan atgyfnerthwyd cyfraniad allweddol ein Porthladd fel Porth Ynni Gorllewinol y DU unwaith eto. Roedd yn bwysig, felly, i ni ganolbwyntio ar y pethau sydd o fewn ein rheolaeth: gweithredu ein Porthladd mewn ffordd ddiogel, gyfrifol ac effeithiol (ein diben), gan ddatblygu ein gwytnwch, arallgyfeirio ein refeniw, a gweithio yn unol â'n gwerthoedd er mwyn gwasanaethu ein cwsmeriaid, ein partneriaid, ein cymunedau dyfrffyrdd, a chenedlaethau'r dyfodol.

Rydym wrth ein bodd, felly, bod 2024 yn flwyddyn arall o dwf i'n Porthladd, er gwaethaf gostyngiad mewn lefelau morgludiant. Gwelsom gynnydd o 4.6% yn ein refeniw gwerthiant a chynnydd o 65.9% yn ein helw gweithredu. Ond gwelsom dueddiadau cadarnhaol hefyd yn ein perthynas â chwsmeriaid a rhanddeiliaid, gwytnwch ein gwasanaeth, arallgyfeirio refeniw nad yw'n gysylltiedig â'r porthladd, a'n cyfraniad at ein cymunedau arfordirol a chenedlaethau'r dyfodol.

Ym mis Medi, fe aethom ati am y tro cyntaf i gynnull gweithdy ar draws y porthladd lle cytunodd y mynychwyr ar y datganiad hwn: '*fel partneriaeth o ddarparwyr gwasanaeth a chwsmeriaid ledled Dyfrffordd y Ddau Gleddau, rydym yn ymrwymo i fod yn Borthladd Ynni o Ddewis y DU drwy gydweithio i ddarparu porthladd diogel, effeithlon ac integredig drwy gydol y flwyddyn'*. Mae'r ymrwymiad hwn i ymdrech gyffredin yn hanfodol i lwyddiant masnachol hirdymor y Ddyfrffordd ac mae'n cefnogi'n uniongyrchol flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer twf, diogelwch a'r newid a reolir i gymysgedd ynni'r DU. Mae'r dull partneriaeth hwn, a fynegir yn ein siarter o'r enw '*Haven Waterway 2030 and beyond - securing tomorrow with action today*', yn cael effaith gadarnhaol eisoes ar ein cwsmeriaid a chwsmeriaid ein cwsmeriaid. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys llawer o dystiolaeth o'n gwaith parhaus i fuddsoddi yn ein gweithrediadau craidd yn y porthladd; mae mwy o bobl, cychod gwell a thechnoleg well yn ganolog i'n blaenoriaeth ar gyfer cynnal gwasanaeth rhagorol a datblygu gwytnwch a chapasiti.

Fel rhan o'n cyfraniad at waith yn ymwneud â diogelu ffynonellau ynni a'r cymysgedd ynni yn y dyfodol, rydym wedi cyfrannu'n helaeth at ddatblygu cyfleoedd ar gyfer twf a rhagor o ffyniant ledled ein rhanbarth. Roedd agor prosiect Ardal Forol Doc Penfro ym Mhorthladd Penfro ym mis Awst gan Ddirprwy Brif Weinidog Llywodraeth y DU, Prif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn garreg filltir arwyddocaol arall yn y broses o greu seilwaith ar gyfer ynni adnewyddadwy. Fe wnaethom chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o greu'r Porthladd Rhydd Celtaidd sy'n ceisio darparu dros 11,000 o swyddi a gwerth biliynau o bunnoedd o fuddsoddiad trwy'r cyfleoedd sy'n cael eu creu yn y Môr Celtaidd ar gyfer ffermydd gwynt arnofiol ar y môr (FLOW). I ni, sydd ag awydd cryf i ddenu buddsoddiad ym Mhorthladd Penfro, mae'r cyfle FLOW yn llawn risgiau ar hyn o bryd, ac mae maint a hyd y cyfle yn aneglur.

Felly, fe wnaethom groesawu'r gwahoddiad ar ddiwedd 2024 i ymuno â 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr' Llywodraeth Cymru. Diben y grŵp yw datgloi cynnig FLOW llwyddiannus y mae modd buddsoddi ynddo a chreu cynllun i Gymru lle mae gwynt Cymru yn pweru twf a ffyniant Cymru, fel rhan o gymysgedd ynni wedi'i ddatgarboneiddio yn y DU.

Rhaid cofio mai porthladd ydym yn anad dim. Dyna pam rydyn ni'n bodoli, a dyna fydd yn ein prif ffocws bob amser. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi ein hymgais i sicrhau gwytnwch hirdymor y Dyfrffyrdd a'r busnes, a darparu sylfaen ariannol gryfach ar gyfer gallu a darpariaeth ein porthladd, fe wnaethom gwblhau’r broses strategol o gaffael y St Brides Spa Hotel fel rhan o'n gweithgareddau arallgyfeirio refeniw parhaus. Trwy wneud hyn, ac yn dilyn mentrau arallgyfeirio blaenorol, rydym bellach yn gallu ymdopi'n well o lawer ag amrywiadau mewn lefelau morgludiant. Yn 2024, roedd refeniw nad yw'n gysylltiedig â'r porthladd yn gyfrifol am 45% o'n refeniw gwerthiant cyffredinol (o'i gymharu â 39% yn 2023), ac ar lefel y grŵp, mae hyn yn ein helpu i ymdopi ag amrywiadau mewn lefelau morgludiant. Yn wir, roedd lletygarwch a thwristiaeth wedi creu mwy o incwm i ni yn 2024 na'r derfynell ynni brysuraf. Dylai'r ffaith hon roi tawelwch meddwl i'n holl gwsmeriaid a rhanddeiliaid gan ei bod yn sylfaen i'n gallu i fuddsoddi yn fwy hyderus yn ein gweithrediadau craidd yn y porthladd.

Cynhaliwyd cyfres ardderchog arall o ddigwyddiadau awyr agored yng Nglannau Aberdaugleddau yn 2024. Mae'r ardal hon yn llawn bwytai, caffis, siopau manwerthu a bwrlwm y diwydiant pysgota, gan ddenu degau o filoedd o ymwelwyr. Unwaith eto, roedd Gwesty Tŷ Glannau Aberdaugleddau wedi rhagori ar y disgwyliadau, ac mae gan y marina ei hun restr aros hirach na chyfanswm yr angorfeydd sydd ar gael. Mae sut rydym yn buddsoddi yn ein cymunedau yn ystyriaeth allweddol i ni; mae angen buddsoddiad sydd â chysylltiad agos â'n cymunedau ac sy’n cael effaith arnynt. Fe wnaethom adeiladu mannau a chreu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth leol a busnesau newydd; mae McDonalds, Greggs a Gwesty newydd Tŷ Glannau Aberdaugleddau yn cynnal 130 o swyddi newydd yn y sir.

Fel porthladd ymddiriedolaeth, mae’n bwysig bod lefel uwch o wytnwch ariannol yn ein helpu i sicrhau buddion yn fwy cyson i gymunedau'r porthladd, busnesau lleol a phartneriaid; roedd y gwytnwch ariannol hwn yn werth dros £500,000 yn 2024. Rydym yn buddsoddi arian ac amser yn uniongyrchol mewn achosion da sy'n gweithio i greu cymdeithas decach. Fe wnaethom weithio gyda phartneriaid i sicrhau gwelliannau amgylcheddol pwysig ar y Ddyfrffordd. Fe wnaethom gefnogi addysg yn ymwneud â diogelwch dŵr, celf a diwylliant, gan fuddsoddi i sicrhau bod mwy o bobl yn gallu mwynhau mannau glas o amgylch ein harfordir. Mae rhai enghreifftiau o'r camau pwysig hyn yn cael eu crybwyll yn yr adroddiad blynyddol hwn gan ein bod yn teimlo bod effaith gymunedol lawn cyn bwysiced â chyflawniadau masnachol wrth fesur llwyddiant.

Rydym wrth ein bodd bod Blwyddyn 2 o'n cylch strategaeth 5 mlynedd wedi cael ymateb cadarnhaol gan ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Yn yr haf, fe wnaethom ofyn y cwestiwn '*Sut mae Porthladd Aberdaugleddau yn perfformio'n gyffredinol yn erbyn eich disgwyliadau?*' Roedd 80% o'r ymatebwyr yn teimlo ein bod ni naill ai'n bodloni neu'n rhagori ar y disgwyliadau; mae hyn yn cymharu â 51% yn 2020. Mae'r ymateb cadarnhaol hwn, a'r ffaith ein bod ni wedi cadw ein hardystiad fel Lle Gwych i Weithio™, yn dangos bod y trywydd y tu mewn a'r tu allan i'n busnes yn ymddangos yn gadarnhaol iawn. I gloi, rwyf am gyfeirio at dri o bobl.

Rydym yn croesawu Dr Siân George fel ein Cadeirydd newydd. Mae gan Siân brofiad helaeth iawn o weithio yn y sectorau ynni adnewyddadwy, masnachol a chyhoeddus. Mae hi'n disodli Dr Chris Martin yn dilyn ei 13 mlynedd o wasanaeth diflino yn y Porthladd. Cafodd ei holl waith caled gydnabyddiaeth gwbl haeddiannol pan ddyfarnwyd OBE iddo yn Rhestr Anrhydeddau

Blwyddyn Newydd y Brenin. Ym mis Hydref, roeddem yn galaru yn dilyn marwolaeth Mr Ian Edwards o'r Celtic Collection, ein partneriaid ar gyfer gweithrediadau gwestai. Ian oedd ein mentor, ein tywysydd a'n ffrind dibynadwy wrth i ni fentro i'r busnes gwestai; rydym yn gweld ei eisiau fel un o fawrion ei broffesiwn ac fel cydweithiwr gwych.

Fe wnaethom lwyddo i wneud cynnydd da ledled ein busnes a'r Ddyfrffordd yn 2024. Roedd hyn yn deillio o waith caled ac ymrwymiad cydweithwyr, cwsmeriaid, rhanddeiliaid a chymunedau gwych, wedi'u huno gan ymrwymiad cyffredin i'n Dyfrffordd. Roeddem yn well yn 2024 nag oeddem yn 2023, ac am hynny rwy'n diolch yn ddiffuant ac yn ddiamod i bawb dan sylw. Ymlaen â ni.